Papur Briffio CNC: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a seilwaith

Medi 2021

Cyflwyniad

Mae CNC yn croesawu'r cyfle i roi ein barn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newid hinsawdd, yr amgylchedd a seilwaith.

Rydym yn ymgymryd â rolau canolog allweddol a all gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfyngau hinsawdd a natur, a chyfrannu at ddarparu seilwaith wedi'i flaenoriaethu. Mae hyn yn caniatáu inni ddarparu rheolaeth adnoddau naturiol integredig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl, yr amgylchedd a'r economi. Er enghraifft:

- **Cynghorydd**: Rydym yn darparu cyngor technegol a seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraethau Cymru a'r DU a rhanddeiliaid allweddol eraill ar ystod eang o feysydd pwnc sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: rheoli gwastraff, adnoddau dŵr, newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, ynni, a chynllunio gofodol ar gyfer yr amgylcheddau morol a daearol. Er enghraifft, cyngor ar sut y gall newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth, neu deddfwriaeth newydd, effeithio ar yr amgylchedd ac o bosibl ei adnoddau naturiol.
- **Rheoleiddiwr:** Rydym yn amddiffyn pobl a'r amgylchedd trwy sicrhau bod busnesau ac unigolion yn gweithredu o fewn y gyfraith pan fydd eu gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd.

- **Ymgynghorai statudol:** Rydym yn ymgynghorai statudol yn y system gynllunio lle rydym yn darparu cyngor i awdurdodau cynllunio a datblygwyr ar effeithiau amgylcheddol posibl cynlluniau arfaethedig.

- **Rheolwr tir a galluogwr:** Rydym yn rheoli 7% o dir Cymru, gan gynnwys gwarchodfeydd natur cenedlaethol. Rydym yn berchen ar 500km o amddiffynfeydd a 4,000 o asedau ac yn eu gweithredu i leihau'r risg o lifogydd, ac i alluogi a hwyluso'r defnydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir a reolir gan CNC.

- **Partner ac addysgwr:** Rydym yn darparu cymorth grant i helpu i wella'r amgylchedd, cynnig cyfleoedd i bobl ddysgu am eu hamgylchedd naturiol, a gweithio gyda phartneriaid ar gamau gweithredu, ymchwil ac ymgyrchoedd i

gynyddu effeithlonrwydd dŵr ar draws pob sector. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni ein Rhaglen Creu Coetir er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno cynllun plannu coed

- **Casglwr tystiolaeth a chyfathrebwr:** Rydym yn comisiynu, yn ymgymryd ac yn coladu gwybodaeth amgylcheddol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar sail yr amgylchedd. Rydym yn darparu gwasanaeth darogan llifogydd a rhybuddio am lifogydd, gan gynnwys rhwydwaith o fesuryddion glaw a mesuryddion afonydd a phrosesu'r holl wybodaeth, ac rydym yn chwaraewr a chynghorydd allweddol mewn ymateb brys i ddigwyddiadau llifogydd.

Rydym yn cefnogi'r blaenoriaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn ei llythyr ac wedi darparu ymatebion manylach i bob un o'r adrannau ynddo isod. Fel rhan o hyn, rydym hefyd wedi nodi rhai meysydd ychwanegol sy'n haeddu sylw cyn gynted â phosibl.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol yn dilyn diwedd cyfnod trosglwyddo'r UE. Rydym yn ystyried hyn yn flaenoriaeth, a byddwn yn croesawu cyfleoedd i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r ddeddfwriaeth ofynnol.

Un o gyfrifoldebau statudol CNC yw cynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar ddiwedd pob tymor Seneddol yng Nghymru. Pwrpas yr adroddiad hwnnw yw asesu cynnydd Cymru tuag at ddefnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau ym myd natur ac yn yr hinsawdd, amlygodd ein hadroddiad diweddaraf, cyhoeddwyd yn 2020, fod angen gwneud newidiadau trawsnewidiol i'n ffordd o fyw. Bydd trawsnewid y systemau ynni, bwyd a thrafnidiaeth yn rhan allweddol o hyn, gan mai'r rhain yw'r ysgogwyr mwyaf o ran newid amgylcheddol. Rydym yn croesawu cynnwys dwy o'r systemau hyn yn rhestr blaenoriaethau'r pwyllgor, yn ogystal â'r bwriad i weithio ar draws ffiniau sectoraidd gan y bydd hyn yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu.

Ar lefel fyd-eang, mae adolygiad Dasgupta (Economeg Bioamrywiaeth) ar gyfer Trysorlys y DU yn nodi ei ddadansoddiad o'r newidiadau mewn llywodraethu sydd eu hangen arnom i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Mae hefyd yn dangos sut y gallwn fynd i'r afael ag effaith fyd-eang ein defnydd o adnoddau naturiol a gweithio tuag at nod llesiant Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Hoffem weld argymhellion Adolygiad Dasgupta yn cael eu hystyried yn fwy penodol yn rhestr blaenoriaethau'r pwyllgor.

Newid yn yr hinsawdd

Rydym yn cefnogi targedau a chyllidebau lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru, sy'n unol â'r cyngor annibynnol gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd. Maent yn darparu llwybr heriol ond ymarferol i ddatgarboneiddio Cymru. Bellach, mae angen i'r ffocws symud tuag at ei gyflawni. Er y bydd cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel – *Cymru Sero-net* nesaf sydd ar ddod yn anochel wrth ddarparu sbardun pwysig i weithredu, bydd yn hanfodol i'r cynllun gael ei ystyried yn ddogfen fyw yn hytrach na'i osod ar gyfer y cylch pum mlynedd nesaf. Mae llawer o dechnolegau ac arferion datgarboneiddio yn esblygu'n gyflym, felly dylai adolygiad cyfnodol o'r cynllun a'r rhwystrau i gyflawni fod yn flaenoriaeth

bwysig. Yn CNC a'r sector cyhoeddus ehangach, mae llawer o heriau i ddatgarboneiddio, yn enwedig trawsnewid ein hadeiladau a'n caffaeliad.

Boed ar lefel fyd-eang, genedlaethol neu leol, mae'r ymateb i newid yn yr hinsawdd wedi cael ei ddominyddu gan yr angen i ddatgarboneiddio – ac mewn rhai agweddau, o bosibl yn hollol gywir – ond gydag amlder a maint cynyddol effeithiau newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau arbennig o eithafol, mae bellach yn hanfodol bod mwy o ffocws yn cael ei roi i risgiau yn sgil yr hinsawdd a'r angen i addasu. Mae cyhoeddiad diweddar yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd 3 ac adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, Adroddiad 6, yn atgyfnerthu'r brys dros weithredu pellach. O ganlyniad, dylai adolygu cynnydd wrth gyflawni Cynllun Addasu Cymru fod yn flaenoriaeth dros y 18 mis nesaf, yn enwedig yng ngoleuni risgiau'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd diwygiedig. Mae CNC yn gweithio tuag at gymhwyso Safon Addasu Sefydliad Safoni Rhyngwladol 14009 i ddarparu dull cydgysylltiedig o reoli risg hinsawdd ar draws ein cylch gwaith, a bydd yn bwysig i bob sefydliad fynd i'r afael â risgiau yn sgil yr hinsawdd yn y dyfodol.

Ynni a sero-net

Rydym yn croesawu’r cyfeiriad teithio a nodir yn y llythyr hwn mewn perthynas â datblygu ynni adnewyddadwy, yn ogystal ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu cynhyrchu ynni lleol, gyda hydrogen fel rhan o’r datrysiad.

Byddwn yn annog canolbwyntio ar ddatblygu ‘hydrogen gwyrdd’ fel y math o hydrogen a ffefrir i’w gynhyrchu a’i ddefnyddio yng Nghymru yn gynaliadwy a lle bo modd gwneud hynny. Mae cynhyrchu hydrogen gwyrdd trwy electrolysis (gyda thrydan o ffynonellau adnewyddadwy) yn gyson â'r llwybr sero-net.

Mae ynni a datgarboneiddio yn faes sy'n datblygu'n gyflym gyda thrafodaethau'n digwydd ynghylch rôl llawer o wahanol dechnolegau, gan gynnwys hydrogen, trydaneiddio a dal a storio carbon. Dylai'r blaenoriaethau ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf ddod yn gliriach yn dilyn CoP26 a'r targedau sy'n deillio o hynny.

Beth bynnag yw'r technolegau a ddefnyddir, bydd lleihau'r galw a chynyddu effeithlonrwydd ynni yn allweddol i gyflawni sero-net. Hoffem weld hyn yn cael ei adlewyrchu'n gryfach ym mlaenoriaethau'r pwyllgor.

Fel rhan o ddull systemau ynni, fel yr amlygwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, hoffem weld rôl cyflenwad ynni a galwadau yn cael ei chynnwys yn fwy penodol. Mae rôl defnyddwyr yn rhan allweddol o'r system ynni, o ran lleihau'r galw trwy effeithlonrwydd ynni a newidiadau yn y cyflenwad trwy gynhyrchu lleol. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru edrych ar ba gymorth y gellir fod ei angen i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio micro ynni adnewyddadwy mewn aelwydydd, ochr yn ochr â mesurau effeithlonrwydd.

Rhan arall o'r system ynni sydd angen sylw arbennig yw sectorau diwydiannol fel dur, cemegau a sment, yn ogystal â'r diwydiant llongau a'r diwydiant awyrennau, lle mae'r opsiynau technoleg cyfredol ar gyfer lleihau allyriadau yn gyfyngedig. Er mwyn datgarboneiddio'r sectorau hyn, bydd angen datblygu technolegau newydd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar raddfa sy'n ymateb i'r sialensau a'r gofynion cynyddol ar hyn o bryd.

Mae angen mwy o waith ar lawer o'r technolegau ynni glân sydd ar gael heddiw i ostwng costau a chyflymu'r defnydd. Mae hyn yn galw am ymdrechion brys i gyflymu arloesedd.

Mae angen dulliau arloesol hefyd ar gyfer storio ynni neu ba danwydd a ddefnyddir pan na ellir ateb y galwadau gan ynni adnewyddadwy. Gall hyn gynnwys tanwydd ffosil, yn ogystal â gwastraff a biomas (gyda thechnoleg dal carbon) a niwclear. Mae sefyllfa bresennol Llywodraeth Cymru ar ynni o wastraff a'r economi gylchol yn glir. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd anhawster bob amser i ailgylchu gwastraff, ac o'r opsiynau sydd ar gael inni ar hyn o bryd, mae'n ffafriol i'r safleoedd tirlenwi ein bod ni'n adfer ynni o ffrydiau gwastraff na ellir eu hailgylchu. Pan gynhwysir systemau gwresogi ardaloedd gyda chynlluniau o'r fath, mae potensial ar gyfer cyflenwad ynni a gwres dibynadwy a datrysiad rheoli gwastraff ar yr un pryd.

Mae Cymru'r Dyfodol a'r cyfeiriad polisi a ddarperir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith gyda'r bwriad o lywio'r mathau cywir o dechnolegau ynni adnewyddadwy i'r lleoliadau sy'n fwy addas ar gyfer datblygiad o'r fath. Bydd yn bwysig parhau i adolygu sut mae'r polisïau hynny'n effeithiol wrth gefnogi cyflwyno technolegau ynni adnewyddadwy ac wrth sicrhau bod ein hamgylchedd yn cael ei amddiffyn a'i wella. Yn ychwanegol, dylem fod yn barod i wynebu unrhyw heriau i gyflawni seilwaith y rhwydwaith trawsyrru gofynnol.

Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut i ddefnyddio Cynllun Masnachu Allyriadau arfaethedig y DU i gyflawni uchelgeisiau Cymru ar gyfer datgarboneiddio.

Y Rhaglen Ynni Morol

Mae CNC yn cytuno bod gan y rhaglen ynni morol y potensial i fod yn sbardun pwysig i fuddsoddiad a swyddi. O ystyried yr adnodd ynni gwynt, tonnau a llanw helaeth sydd gan Gymru, mae gan ddatblygiad ynni adnewyddadwy morol y potensial i gyflenwi ynni carbon isel ar raddfa sylweddol, y tu hwnt i’r hyn a gyflawnwyd eisoes yn nyfroedd Cymru.

Er mwyn cyflawni'r potensial hwn, ochr yn ochr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer natur, bydd yn hanfodol sicrhau bod datblygiad yn ystyried cynhwysedd amgylcheddol. Mae cydsynio technolegau morol newydd ac ar raddfa fawr yn gymhleth ac yn broses heriol i ddatblygwyr, rheoleiddwyr, cynghorwyr a'r llywodraeth. Rydym o'r farn bod deddfwriaeth i wneud penderfyniadau yn addas at y diben ond mae bylchau mewn tystiolaeth amgylcheddol forol yn her benodol, a gallant achosi oedi mewn cydsynio oherwydd yr ansicrwydd ynghylch arwyddocâd effeithiau amgylcheddol.

Bydd dull polisi cydgysylltiedig hefyd yn hanfodol i optimeiddio dewisiadau rhwng technolegau a lleoliadau, ac i ddarparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer cynllunio strategol a chasglu tystiolaeth. Dylai'r nod fod i sicrhau bod gennym y technolegau cywir yn y lleoliadau cywir fel bod ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gyson â'n hymateb i'r argyfwng natur. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi cychwyn ond mae angen polisi, cynllunio a chasglu tystiolaeth mwy penodol. Mae Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr CNC hefyd yn gweithio i fynd i’r afael â’r her hon.

Plannu coed

Mae CNC yn gefnogol i gynnwys blaenoriaethau'r llythyr sy'n anelu at sicrhau newid sylweddol yn y gyfradd plannu coed. Bydd cyflawni'r newid hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar weithredu ar argymhellion y Dirprwy Weinidog i blannu coed. Yn ogystal â hyn, mae angen mwy o eglurder ar gyflawni'r Coedwigoedd Cenedlaethol.

Fel rhaglen strategol hirdymor, mae angen i'r rhaglen Coedwigoedd Cenedlaethol ategu mentrau eraill, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac unrhyw gynllun creu, rheoli ac adfer coetir newydd sy'n disodli Glastir. Bydd hyn yn gofyn am ddull cydgysylltiedig, gan gynnwys ymgysylltu âffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau a gweithio gyda nhw, yn ogystal ag ymrwymiad tymor canolig i dymor hir clir i gyllid ac atebion cyllid arloesol. Mae gwaith i godi proffil pren, i gefnogi'r sector ac i annog defnydd ehangach mewn adeiladu hefyd yn bwysig, a rhoddir sylw iddo trwy ddatblygu Strategaeth Ddiwydiant.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru newydd yn ddiweddarach eleni, ac rydym o'r farn y dylai hyn fod yn uchelgeisiol ac yn fodd o edrych tua'r dyfodol, gan ystyried ugain canlyniad y strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Mae angen mwy o weithredu i wella gwytnwch coetiroedd sydd newydd eu plannu, yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae newid yn yr hinsawdd, plâu ac afiechydon a llygredd aer yn peri risg benodol i wytnwch coetirioedd. Dylai rheolaeth coedamaeth gadarn, yn unol â Safon Goedwigaeth y DU, fod wrth wraidd y bwriad o gael mwy o goetiroedd amrywiol o ran rhywogaethau ac oedran.

Yn olaf, mae gan goed a choetiroedd ran hanfodol i'w chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, er enghraifft trwy atafaelu carbon a helpu i liniaru rhai o effeithiau newid yn yr hinsawdd. Nid yn unig y mae hyn yn berthnasol i goetiroedd gwledig, ond mae hefyd yn berthnasol i'r amgylchedd trefol, fel coed ar strydoedd a choed mewn parciau a gerddi. Hoffem weld pwysigrwydd coed a choetiroedd fel datrysiad ar sail natur yn cael ei atgyfnerthu ar bob cyfle.

Natur a bioamrywiaeth

Mae cysylltiad annatod rhwng argyfyngau newid yn yr hinsawdd a cholledion mewn bioamrywiaeth. Mae colledion mewn bioamrywiaeth yn gwaethygu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, mae creu ac adfer cynefinoedd bioamrywiol ar y tir ac yn ein moroedd yn fodd o storio carbon, a gall natur hefyd ddarparu atebion i'n helpu i addasu mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd, megis trwy leihau'r perygl o lifogydd. Y cysylltiad annatod hwn rhwng argyfyngau colledion mewn bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd yw'r rheswm dros yr angen i fynd i'r afael â nhw gyda'n gilydd. Mae angen i ni ddangos llwybr i ddod yn natur bositif erbyn 2030 tra hefyd yn cyfrannu at ymrwymiadau sero-net. Bydd hyn yn cefnogi uchelgais y DU, ac ar raddfa ryngwladol, yn COP15 a COP26.

Mae angen digon o le ar natur gyda diogelwch priodol i gynnal poblogaethau rhywogaethau ffyniannus ac ecosystemau iach. Mae targedau yn llywio graddfa'r

gweithredu sy'n ofynnol ac yn hyrwyddo gweithredu gan eraill. Mae targedau cadarn yn bwysig i arwain gweithredoedd a dyrannu adnoddau. Gall targedau sy'n rhwymol yn gyfreithiol ar gyfer natur ddarparu mecanwaith cryf i sicrhau gweithredu ar lawr gwlad yng Nghymru.

Ar y môr, mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar wella cyflwr y rhwydwaith helaeth o ardaloedd morol gwarchodedig, er mwyn adeiladu gwytnwch ecosystem forol a gwella storfeydd carbon glas.

Yn ogystal â'r camau sydd angen eu cymryd i gefnogi adferiad natur ar lawr gwlad, mae angen i ni hefyd edrych ar ba newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i drawsnewid y systemau economaidd-gymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn llywio'r colledion mewn bioamrywiaeth.

Economi gylchol

Mae galluogi'r symudiad tuag at economi gylchol yn ffactor pwysig wrth ddatgarboneiddio Cymru, ac rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod lleihau ymhellach faint o wastraff a gynhyrchir a sicrhau y gellir ailddefnyddio neu ailgylchu gwastraff a gynhyrchir yn wirioneddol yn allweddol. Lle nad yw'r naill na'r llall yn bosibl, ceir gwared ar y gwastraff yn briodol. Rydym yn croesawu pwysigrwydd y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru i leihau gwastraff. Mae'r strategaeth hon yn gwneud ymrwymiadau ac yn nodi camau i gyflawni defnydd adnoddau un blaned a dyhead dim gwastraff ar gyfer 2050.

Mae deddfwriaeth ddiweddar fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu faint o ddeunyddiau i'w hailgylchu, gwella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael i'w hailgylchu, a sicrhau nad yw deunyddiau y gellid eu hailgylchu yn cael eu gwastraffu. Ar hyn o bryd, rydym yn cynghori Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth bellach, megis ar gynigion ar gyfer cyfrifoldebau estynedig i gynhyrchwyr gwastraff, cynigion ar gyfer cyfyngiadau pellach ar ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a anfonir i safleoedd tirlenwi, ac olrhain data gwastraff gorfodol. Bydd y rhain yn helpu i gyflawni'r nodau yn y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu. Fodd bynnag, bydd angen ystyriaeth ofalus i ddeall beth fydd ei angen ar wahanol chwaraewyr ar gyfer y nodau y bwriedir eu gweithredu'n effeithiol yn y ddeddfwriaeth newydd. Yn ogystal â hyn, ni allwn anwybyddu problem bresennol troseddau gwastraff a'i effeithiau andwyol wrth ddarparu economi gylchol, gan gynnwys ei heffaith ar ddarparu adnoddau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth newydd a dyheadau'r llywodraeth. Dylai nodi a chefnogi atebion arloesol i fynd i'r afael â throseddau gwastraff fynd law yn llaw â datblygu a darparu dulliau newydd ar gyfer darparu economi gylchol.

Amgylchedd

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth gan y pwyllgor y bydd mynd i’r afael â’r heriau y mae ein hamgylchedd yn eu hwynebu yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gymru ddefnyddio dull gweithredu ar sail systemau, sy’n edrych ar yr achosion sylfaenol dros newid a’r defnydd o arloesiadau technolegol a newidiadau mewn ymddygiad i fynd i’r afael â’r rhain.

Rydym yn croesawu cynnwys yr ecosystem ddŵr yn yr adran hon. Mae ansawdd dŵr da a chyflenwad dŵr dibynadwy yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant pobl, ac yn hanfodol ar

gyfer economi ffyniannus a'r byd natur. Am y rheswm hwn, hoffem weld ffocws y pwyllgor yn cael ei ehangu y tu hwnt i ddŵr gwastraff, i gwmpasu rheoli dŵr yn gynaliadwy, yn enwedig gan fod y cyflenwad a'r galw am ddŵr yn wynebu pwysau niferus, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a chynnydd mewn defnydd cyffredinol o ddŵr.

Ar gyfer rheoli perygl llifogydd, rydym wedi nodi nifer o heriau mawr. Caiff y rhain eu crynhoi isod:

1. Mae angen i ni ofalu'n iawn am yr holl seilwaith ac asedau sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith er mwyn helpu i reoli llifogydd. Yn ogystal ag amddiffynfeydd llifogydd, mae hynny'n cynnwys systemau rhybuddio llifogydd, offer modelu a mapio llifogydd, rhwydweithiau o arweinwyr cynlluniau llifogydd cymunedol ac adnoddau gwybodaeth a chyngor ar-lein. Mae angen buddsoddiad parhaus ar bob un o'r rhain er mwyn osgoi'r perygl o lifogydd yn cynyddu.
2. Yr angen i addasu, ar gyflymder. Mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd yn gyflym. Mae angen i ni wneud cynlluniau hirdymor ar gyfer ein cymunedau yn y lleoliadau sydd yn y perygl mwyaf, ac mae angen i ni ddechrau gweithredu'r rhain pan gyrhaeddir pwyntiau sbarduno. Mae angen i ni nodi'r llwybr at addasu, ar raddfa dalgylch. Mae'n ymwneud â gwneud lle ar gyfer symiau sylweddol o ddŵr, a gwneud penderfyniadau anodd ar gynllunio gofodol a'r hyn y mae'n ei olygu i gymunedau. Mae hwn yn waith sylweddol o ran adnoddau ac ymdrech.
3. Yr angen i adeiladu cadernid, unwaith eto ar gyflymder. Mae angen i ni sicrhau bod gwir ddealltwriaeth o'r perygl o lifogydd a'r hyn y gall cymunedau ei wneud i helpu eu hunain a'i gilydd. Mae hefyd yn ymwneud â chynyddu cadernid eiddo i lifogydd, sy'n golygu pan fydd cartrefi a busnesau dan ddŵr, y gallant fod ar waith cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Adfywio Canol y Dref

Rydym yn croesawu Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ac rydym yn cytuno bod gan seilwaith gwyrdd gyfraniad pwysig i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor mewn trefi ac yng nghanol dinasoedd. Gall helpu i greu amgylchedd sy'n fwy deniadol i bobl ac i fywyd gwyllt, yn ogystal ag annog buddsoddiad i ganol trefi a dinasoedd.

Nododd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 golledion mewn coed trefol a chynnydd mewn llifogydd fel rhai o'r materion sy'n peri pryder yn yr amgylchedd trefol. Gellid ystyried y materion hyn yn ddefnyddiol fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Trefi. Bydd hyn yn gofyn am feddwl yn yr hirdymor, gan y bydd rhai atebion seilwaith gwyrdd, megis coed trefol a chynlluniau draenio cynaliadwy, yn cymryd blynyddoedd lawer i gyflawni'r ystod lawn o fuddion y gallant eu darparu.